# Cyngor Dinas Bangor

## Cofnodion Pwyllgor Gweithredol Hwb

Dydd Mawrth 2il Mehefin 2026, Swyddfa Cyngor Dinas Bangor, 17.00

**Presenoldeb**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr:** | Cyng: Delyth Russell (Cadeirydd), Gwynant Roberts, Jackie Spence (Dirprwy Gadeirydd), Elin Walker-Jones, Gwynant Roberts. |
| **Swyddogion:** | Martin Hanks, Cyfarwyddwr y Ddinas, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol<br>Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas |
| **Eraill:** | - |
| **Ymddiheuriadau:** | - |

---

**Dechreuodd y cyfarfod am 17.05.**

| Camau | Cyfeirnod | Eitem |
|---|---|---|
| 1. | **H07/26** | **Ymddiheuriadau:**<br>Dim byd i'w nodi. |
| 2. | **H08/26** | **Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:**<br>Datganodd y Cynghorydd Delyth Russell fod ganddi fuddiant proffesiynol a phersonol gan ei bod yn gweithio i Gisda fel Cysylltydd iCan, sydd â phresenoldeb proffesiynol yn yr hwb. Mae hi'n cael ei chyflogi'n llawn amser ac yn cael ei thalu gan Gisda. Nid oes unrhyw fuddiant ariannol i'w ddatgan gan nad yw'r Cyngor yn caffael Gisda i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn Hwb Dinas Bangor. |
| 3. | **H09/26** | **Cyfranogiad y Cyhoedd:**<br>Dim byd i'w nodi. |
| 4. | **H10/26** | **I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf:**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod gwir a chywir. |
| 5. | **H11/26** | **Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor:**<br>Gofynnodd y Cyng Elin i ddiddymu'r cam a gytunwyd yn flaenorol (H06/26) i LG weithio o'r hwb am y tri mis nesaf i sicrhau bod y gwasanaeth yn ôl ar y trywydd iawn yn dilyn ymadawiad nifer o wirfoddolwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>LG i ddychwelyd i'w rôl barhaol fel Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas ar unwaith a thrafodaethau mewn perthynas ag ariannu Cydlynydd/Rheolwr Hwb i ddechrau cyn gynted â phosibl. |
| 6. | **H12/26** | **Cynllun Busnes Hwb Dinas Bangor:**<br>Roedd Cynllun Datblygu Hwb wedi'i gynhyrchu gan LG i ffurfio sail y |

trafodaethau. Derbyniodd y Cynllun safbwyntiau cymysg gan y pwyllgor yn amrywio o fod yn ddogfen ardderchog hyd at fod yn 'rhy uchelgeisiol' a chostus.

- Dywedodd y Cynghorwyr fod angen cynnal trafodaethau gyda swyddogion uwch yng Nghyngor Gwynedd a BIPBC i nodi cyllid tymor hwy ar gyfer darparu Hwb.
- Trafododd y Cynghorwyr hefyd y cyfle neu'r canlyniadau o ddarparu gwasanaethau 'craidd' yn unig yn hytrach na bod yn uchelgeisiol.

**Penderfynwyd:**

- I LG drefnu cyfarfodydd gyda swyddogion uwch yng Nghyngor Gwynedd a BIPBC i ganfod cyfleoedd ar gyfer cyllid tymor hir.
- I LG gysylltu â'r pwyllgor i gynhyrchu Cynllun Busnes diwygiedig i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref, i'w ystyried cyn i broses gosod cyllideb y Cyngor ddechrau ym mis Tachwedd 2026.

7. **H13/26** **Unrhyw fusnes arall:**
Dim byd i'w nodi.

**Daeth y cyfarfod i ben am: 18.15.**

**Wedi'l lofnodi gan: ………………………………………….**

**Dyddiad: ………………………………………….**


Enw Cadeirydd: ………………………